Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 3 Ebrill 2019

Amser: 09.20 – 11.50

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5338

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Mike Hedges AC (Cadeirydd) Andrew RT Davies AC John Griffiths AC Llyr Gruffydd AC Dai Lloyd AC Jenny Rathbone AC Joyce Watson AC
Tystion:	Dr Hannah Pitt, Prifysgol Caerdydd Dr Poppy Nicol, Global Gardens Project Gary Mitchell, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol Nicola Perkins, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol Lynne Lewis, Cymdeithas Rhandiroedd Gogledd Llandaf Stephen Taylor, Cymdeithas Rhandiroedd Gogledd Llandaf
Staff y Pwyllgor:	Marc Wyn Jones (Clerc) Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)

	Elfyn Henderson (Ymchwilydd) Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Gareth Bennett AC.

2 Rhandiroedd: sesiwn dystiolaeth

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Hannah Pitt a Dr Poppy Nicol.

3 Rhandiroedd: sesiwn dystiolaeth gyda chynrychiolwyr tyfwyr cymunedol

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gary Mitchell, Nicola Perkins, Lynne Lewis a Stephen Taylor.

3.2 Cytunodd Gary Mitchell i ddarparu rhagor o wybodaeth am fodelau ar gyfer caffael tir ar gyfer tyfu ar randiroedd a thyfu cymunedol.

4 Papurau i'w nodi

4. Nododd y Pwyllgor y papurau o dan eitem 4.

4.1 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch y cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru

4.2 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn dilyn y sesiwn graffu flynyddol ar 10 Ionawr

4.3 Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru at y Cadeirydd ynghylch craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol

4.4 Gohebiaeth gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau at y Cadeirydd ynghylch ei waith craffu ar gynllun cyllidebau carbon cyntaf Llywodraeth Cymru - Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel

4.5 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol i Fil Amaethyddiaeth y DU

4.6 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at y Cadeirydd ynghylch adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw ar gyfer eitemau 6 a 7

5.1 Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o eitemau 6, 7 ac 8 o gyfarfod heddiw.

6 Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir

6.1 Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a bydd yn cyflwyno adroddiad maes o law.

7 Dull ar gyfer trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil Amaethyddiaeth y DU

7.1 Trafododd y Pwyllgor ei ddull ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil Amaethyddiaeth y DU a chytunodd ar y dull hwnnw.

8 Trafod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU

8.1 Trafododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i'w adroddiad a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch nifer o faterion.